**GWEITHDREFNAU ARIANNOL**

**Adran 09 – Incwm Ffioedd Dysgu a Llety**

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | Chwefror 2021 |
| **Perchennog y Polisi:** | Cyllid a Chydymffurfiaeth |
| **Dyddiad Adolygu Diwethaf:** | Chwefror 2021 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Mehefin 2022 |

## 9. Incwm - Ffioedd dysgu

9.1.1 Mae’r broses o gynhyrchu anfonebau ffioedd dysgu yn cael ei yrru gan y cofnod myfyriwr a weinyddir gan y Gofrestrfa Academaidd. Pennir cod ffioedd i'r cofnod myfyriwr sy'n pennu gwerth y ffi a godir am flwyddyn academaidd benodol. Mae'r cod ffioedd a bennir yn seiliedig ar gynllun astudio'r myfyriwr a'u statws preswyl h.y. Cartref/UE neu Ryngwladol.

9.1.2 Cynhyrchir trafodyn anfoneb ffioedd dysgu yn awtomatig pan fydd y myfyriwr yn cofrestru a chaiff y cod cofrestru ei ddiweddaru ar gofnod y myfyriwr. Bydd gwerth yr anfoneb yn seiliedig ar y cod ffioedd a bennir a'r gwerth a nodir ar dabl y codau ffioedd am y flwyddyn academaidd gyfredol.

9.1.3 Pennir cyfrif Cyfrifon Derbyniadwy i bob myfyriwr, yn seiliedig ar y cyfeirnod ar gofnod y myfyriwr, i gofnodi pob trafodyn yn ymwneud ag anfonebau gan gynnwys ffioedd dysgu, ffioedd llety ac anfonebau atodol.

9.1.4 Bydd pob trafodyn ffioedd dysgu a gynhyrchir yn awtomatig yn cynnwys y meysydd data canlynol o gofnod y myfyriwr:

Cat 3 - Noddwr
Cat 5 - Cod Ffioedd
Cat 6 – Math o Ffi
Cat 7 - Blwyddyn Academaidd

9.1.5 Ar gyfer y maes 'noddwr' y dewis diofyn fydd "HUNAN/SELF" bob amser, sy'n golygu mai'r myfyriwr sy'n atebol. Mewn achosion lle mae myfyrwyr wedi gwneud cais am gymorth ffioedd dysgu trwy Cyllid Myfyrwyr, bydd y Brifysgol yn cael cadarnhad electronig o gyllid ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr cymwys. Os ceir cadarnhad o gyllid gan Cyllid Myfyrwyr, cynhyrchir cyfres ddilynol o drafodion yn awtomatig i gredydu'r trafodyn gwreiddiol a chynhyrchu trafodyn newydd gan gofnodi 'SLC' yn y maes 'Cat 3 – Noddwr'. Yna, trosglwyddir yr atebolrwydd am y ffioedd dysgu o'r myfyriwr i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr.

9.1.6 Mae'r data hwn yn parhau i fod yn agored i gael ei newid a gall yr atebolrwydd am ffioedd dysgu fynd nôl ar y myfyriwr ar unrhyw adeg gan gynnwys blynyddoedd yn y dyfodol.

9.1.7 Ystyrir bod myfyrwyr ôl-raddedig sydd wedi gwneud cais am fenthyciad i dalu eu ffioedd dysgu yn hunan-gyllido gan fod taliadau'r benthyciad yn cael eu rhoi yn uniongyrchol i’r myfyriwr, nid i'r Brifysgol, yn wahanol i gymorth ffioedd dysgu israddedig a TAR.

9.1.8 Mae'n rhaid i fyfyrwyr sy'n hunan-gyllido dalu'r ffioedd dysgu blynyddol yn llawn erbyn 1 Hydref neu trwy gynllun i dalu’r rhandaliadau â thaliadau cerdyn credyd cylchol gydag uchafswm o 3 neu 4 rhandaliad fel y bo'n briodol i’r myfyriwr a chategori'r cwrs. Gall myfyrwyr ôl-raddedig sy'n derbyn cyllid yn chwarterol dalu mewn 4 rhandaliad. Dylai'r rhai sy'n cael benthyciad ffioedd dysgu dalu mewn 3 rhandaliad i gyfateb â'r cyllid gan fod dyddiadau'r rhandaliadau yn cael eu teilwra yn unol â hynny.

9.1.9 Os yw myfyriwr wedi sicrhau nawdd ar gyfer y ffi cyfan sy'n ddyledus, neu ran ohoni, bydd angen iddynt ddarparu prawf o'r nawdd cyn cofrestru. Mewn achosion lle y darperir tystiolaeth o nawdd llawn, bydd y maes nawdd (Cat 3) yn cael ei ddiweddaru o SELF i SPONS. Anfonebir noddwyr ffioedd dysgu ac maent yn ddarostyngedig i delerau talu 30 diwrnod. Os bydd noddwr yn diffygdalu ar drefniant talu, bydd yr atebolrwydd am y ffioedd dysgu wedyn yn mynd yn ôl ar y myfyriwr, a fydd yn ddarostyngedig i'r broses casglu ffioedd dysgu a’r cosbau safonol fel y nodir yn y Polisi Casglu Dyledion Teg.

9.1.10 Pan fo myfyriwr wedi’i atal neu wedi tynnu'n ôl o raglen astudio yn swyddogol, a bod y dyddiadau tymor safonol yn berthnasol, cyfrifir gostyngiad yn yr atebolrwydd ffioedd dysgu yn

seiliedig ar y dyddiad swyddogol y tynnodd y myfyriwr yn ôl, a chaiff ei nodi ar gofnod y myfyriwr fel a ganlyn:

| Dyddiad Tynnu'n Ôl | % o'r Ffi Flynyddol sy'n Ddyledus |
|---|---|
| Tymor 1 - o fewn y bythefnos gyntaf | 0% |
| Tymor 1 - o 2 wythnos i'r diwrnod cyn tymor 2 | 25% |
| Tymor 2 - o ddiwrnod cyntaf tymor 2 i'r diwrnod cyn tymor 3 | 50% |
| Tymor 3 - o ddiwrnod cyntaf tymor 3 | 100% |

## 9.2 Incwm - Ffioedd Dysgu a ariennir gan Gymorth Cyllid Myfyrwyr

9.2.1 Gall myfyrwyr israddedig a myfyrwyr TAR cymwys wneud cais am fenthyciadau a grantiau i dalu eu ffioedd dysgu yn ogystal â benthyciadau a grantiau cynhaliaeth trwy'r corff ariannu perthnasol yn y Deyrnas Unedig. Mae uwchraddedigion a ddysgir (PGT) ac uwchraddedigion ymchwil (PGR) yn gymwys i wneud cais am fenthyciad ôl-raddedig (Meistr neu Ddoethurol). Rhaid i geisiadau gael eu cyflwyno'n flynyddol gan y myfyriwr erbyn 31 Mai. Bydd myfyrwyr yn cael Hysbysiad Cyllid Myfyrwyr i'w hysbysu am y cyllid maent yn gymwys i'w dderbyn, ynghyd ag amserlen daliadau gan y corff ariannu perthnasol yn y DU. Mewn achosion lle nad yw'r Brifysgol wedi derbyn cadarnhad o'r cyllid, bydd y myfyriwr yn parhau'n atebol am y ffioedd dysgu blynyddol llawn.

Prosesir cyllid myfyrwyr ar gyfer ymgeiswyr israddedig Cartref/UE gan y Cyrff Cyllido canlynol yn y DU:

- Cyllid Myfyrwyr Cymru
- Cyllid Myfyrwyr Lloegr
- Cyllid Myfyrwyr Gogledd Iwerddon
- Asiantaeth Grantiau Myfyrwyr yr Alban

9.2.2 Bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn rhoi gwybod i'r Brifysgol am geisiadau am gyllid myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n parhau â'u hastudiaethau. Mae gan y Brifysgol ddyletswydd i hysbysu'r corff ariannu perthnasol yn y DU am unrhyw wahaniaethau neu anghysonderau yn y manylion a gyflwynir.

9.2.3 Lle bo sefyllfa ariannol y myfyriwr yn cael ei hail-asesu mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn academaidd gan y corff cyllido perthnasol yn y DU, a bod cyfraniad y myfyriwr yn cael ei leihau o ganlyniad i hynny, bydd y Brifysgol yn diwygio'r atebolrwydd cyn gynted ag y ceir hysbysiad ffurfiol o'r newid oddi wrth y corff ariannu perthnasol yn y DU. Bydd unrhyw ad-daliad perthnasol sy'n ddyledus yn cael ei brosesu o fewn amserlen resymol.

9.2.4 Lle bo sefyllfa ariannol y myfyriwr yn cael ei hail-asesu mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn academaidd gan y corff cyllido perthnasol yn y DU, a bod cyfraniad y myfyriwr yn cynyddu o ganlyniad i hynny, bydd yr atebolrwydd yn mynd nôl ar y myfyriwr. Bydd y Brifysgol yn mynd ar drywydd y swm a anfonebwyd yn unol â'r gweithdrefnau safonol ar gyfer casglu dyledion, fel yr amlinellir yn adran 16. Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r rhesymau dros ail-asesu, y cyfrifiadau a ddefnyddiwyd, neu sail y penderfyniad at y corff ariannu perthnasol yn y DU.

9.2.5 Rhaid i'r Brifysgol gadarnhau i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr bod myfyrwyr wedi'u cofrestru'n amserol ac yn gywir trwy gyflwyniad electronig ar ddechrau pob blwyddyn academaidd. Bydd hyn yn sbarduno rhyddhau'r grantiau cynhaliaeth a/neu fenthyciadau i fyfyrwyr.

9.2.6 Rhaid i'r Brifysgol gadarnhau i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr bod myfyrwyr yn bresennol yn amserol ac yn gywir trwy gyflwyniad electronig ar dri phwynt atebolrwydd gwahanol, sy'n cyfateb i bob tymor, i ryddhau taliadau ffioedd i'r Brifysgol ar ran y myfyrwyr. Rhaid sicrhau bod yr wybodaeth am gyrsiau a ffioedd myfyrwyr yn cyfateb cyn cadarnhau eu presenoldeb. Os oes

anghysondebau, rhaid cyflwyno ffurflen newid mewn amgylchiadau i ddiweddaru'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.

9.2.7 Os yw myfyriwr wedi gohirio neu dynnu'n ôl yn swyddogol o raglen astudio, bydd y Brifysgol yn cyflwyno hysbysiad Newid mewn Amgylchiadau i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ar unwaith i'w hysbysu am y newid ac i gadarnhau unrhyw ostyngiad perthnasol yn yr atebolrwydd ffioedd dysgu.

## 9.3 Incwm - Ffioedd Llety

9.3.1 Gyrrir y broses o gynhyrchu anfonebau ffioedd llety gan fodiwl llety y system cofnodion myfyrwyr, AStRA. Mae’r data yn cael ei gynnal gan y Swyddfa Llety.

9.3.2 Mae'r myfyriwr yn cwblhau Pecyn Trwydded Llety ar-lein i sicrhau lle yn llety'r brifysgol, sy'n cynnwys talu ffi dderbyn o £100. Ar ddechrau cyfnod y drwydded, bydd y ffi dderbyn yn troi'n flaendal a gaiff ei ddal gan y Brifysgol trwy gydol arhosiad y myfyriwr. Ar ddiwedd cyfnod y drwydded, bydd y blaendal, llai unrhyw ddidyniadau o dan Gytundeb y Drwydded, yn cael ei ad-dalu i'r myfyriwr. Gall myfyrwyr presennol sy'n byw yn llety'r Brifysgol ac sy'n dymuno gwneud cais am lety am y flwyddyn ganlynol ddewis defnyddio eu blaendal presennol yn ystod proses y Pecyn Trwydded Llety.

9.3.3 Pan fo myfyriwr yn derbyn cynnig o le yn llety'r Brifysgol mae hynny'n gontract rhwymol i feddiannu'r lle hwnnw am sesiwn gyflawn oni nodir yn wahanol. Mae'r myfyriwr yn atebol i dalu'r ffioedd am gyfnod cyfan y drwydded.

9.3.4 Cynhyrchir yr anfoneb llety yn awtomatig pan fo'r maes 'allwedd wedi'i roi/key issued' wedi’i boblogi ar y modiwl llety. Codir gwerth llawn y contract pan fo'r dyddiad 'allwedd wedi'i roi' yn cyfateb i neu’n hwyrach na dyddiad dechrau'r contract. Os yw'r dyddiad 'allwedd wedi'i roi' yn gynharach na dyddiad dechrau'r contract, ychwanegir ffioedd dyddiol ychwanegol at werth yr anfoneb.

9.3.5 Bydd pob trafodyn ffi llety a gynhyrchir yn awtomatig yn cynnwys y meysydd data canlynol o gofnod y myfyriwr:

Cat 3 - Noddwr
Cat 5 - Cod Neuadd
Cat 6 - Math o Ffi
Cat 7 - Blwyddyn Academaidd

9.3.6 Bydd y maes nawdd (Cat 3) wedi’i osod yn ddiofyn i "HUNAN/SELF" sy'n golygu mai'r myfyriwr sy'n atebol. Bydd y maes cod neuadd (Cat 5) yn dangos y cod pedwar llythyren ar gyfer y neuadd breswyl berthnasol.

9.3.7 Fel rhan o'r Pecyn Trwydded Llety ar-lein, yn ogystal â thalu'r ffi dderbyn â cherdyn debyd/credyd, bydd y myfyriwr yn dewis a ydynt am dalu'r ffioedd llety blynyddol yn llawn yn un taliad ym mis Hydref neu trwy uchafswm o dri rhandaliad cyfartal ym mis Hydref, mis Ionawr a mis Ebrill. Gallai dyddiad y taliad terfynol gael ei newid i gyd-fynd â dyddiad derbyn benthyciadau cynhaliaeth y myfyriwr. Bydd yr un manylion cerdyn debyd/credyd yn cael eu cofrestru ar gyfer taliadau’r ffioedd llety. Os oes angen, gellir diwygio manylion y cerdyn cyn dyddiadau'r rhandaliadau. Dyma'r unig ddull talu sydd ar gael lle gellir gwasgaru'r gost dros y flwyddyn academaidd.

9.3.8 Dim ond ar sail feddygol, lles neu academaidd gymeradwy y gall y Swyddfa Llety roi cymeradwyaeth i ryddhau myfyriwr o'r contract. Lle bo cymeradwyaeth wedi'i rhoi, mae'r myfyriwr yn atebol am y ffioedd sy'n ddyledus am y cyfnod y maent wedi bod yn preswylio yn y llety, neu'n gyfrifol am y llety mewn ffordd arall, a gyfrifir ar gyfradd ddyddiol gymesur.